Agenda - Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Lleoliad:
Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd
Dyddiad: Dydd Mercher, 3 Mai 2017
Rhag-gyfarfod Aelodau: 09.45
Amser: 10.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Sian Thomas
Clerc y Pwyllgor
0300 200 6291
SeneddIechyd@cynulliad.cymru

Rhag-gyfarfod anffurfiol (09.45 - 10.15)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2 Ymchwiliad i ofal sylfaenol - sesiwn dystiolaeth 1 - Iechyd Cyhoeddus Cymru a Byrddau Iechyd Lleol

(10.15 - 11.15) (Tudalennau 1 - 55)

Rosemary Fletcher, Cyfarwyddwr Rhaglen, Datblygu ac Arloesi mewn Gofal Sylfaenol a Chymunedol Hwb, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Alan Lawrie, Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Chymunedol, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
John Palmer, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Egwyl (11.15 - 11.25)

3 Ymchwiliad i ofal sylfaenol - sesiwn dystiolaeth 2 - BMA Cymru a Choleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol

(11.25 - 12.10) (Tudalennau 56 - 64)

Dr Isolde Shore-Nye, Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol
Dr Jane Fenton-May, Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol

Dr Charlotte Jones, BMA Cymru Wales
Dr Ian Harris, BMA Cymru Wales

4 Papurau i'w nodi

Llythyr gan Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

(Tudalennau 65 - 66)

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol at y Gweinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd y Cyhoedd ynghylch Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

(Tudalennau 67 - 69)

Llythyr gan y Gweinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd y Cyhoedd at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

(Tudalennau 70 - 71)

Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon ynghylch ystadegau gweithgarwch y GIG

(Tudalen 72)

Llythyr gan y Gweinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd y Cyhoedd at holl Aelodau'r Cynulliad ynghylch safonau maeth mewn ysbytai ac ysgolion

(Tudalennau 73 - 74)

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

6 Ymchwiliad i ofal sylfaenol - trafod y dystiolaeth

(12.10 - 12.15)

7 Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2017-18 - paratoi ar gyfer craffu ariannol yn ystod y flwyddyn

(12.15 - 12.25) (Tudalennau 75 - 81)

8 Trafod canllawiau Llywodraeth Cymru, 'Cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd'

(12.25 - 12.30) (Tudalennau 82 - 83)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

PC 20
Ymchwiliad i ofal sylfaenol
Inquiry into primary care
Ymateb gan: Iechyd Cyhoeddus Cymru
Response from: Public Health Wales

1. Ynglŷn â'r Ganolfan Gofal Sylfaenol yn Iechyd Cyhoeddus Cymru

1.1 Rôl a ffyrdd o weithio

Mae'r Ganolfan Datblygu ac Arloesi Gofal Sylfaenol a Chymunedol (y Ganolfan Gofal Sylfaenol) yn cydlynu cymorth i fyrddau iechyd a chlystyrau, yn genedlaethol, wrth gyflawni'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol a chymunedol yng Nghymru; mae'n hwyluso cyflawni cydgysylltiedig ar amrywiaeth o brosiectau gofal sylfaenol; ac mae'n darparu cymorth i brosiectau eraill yn y rhaglen waith gyffredinol i Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Iechyd Sylfaenol, Iechyd Cymunedol ac Iechyd Meddwl (DPCMH). Mae cydweithwyr yn nhimau cenedlaethol eraill Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â staff y Ganolfan Gofal Sylfaenol i gyflawni'r prosiectau hyn. Mae timau iechyd cyhoeddus lleol (LPHTs) yn gweithio'n agos hefyd gyda'r Ganolfan Gofal Sylfaenol, gan chwarae rôl allweddol wrth gynorthwyo clystyrau gofal sylfaenol yn uniongyrchol mewn ardaloedd bwrdd iechyd, ac wrth gyfrannu gwybodaeth a sgiliau lleol i'r rhaglen waith genedlaethol.

1.2 Rhaglen waith

Mae Bwrdd Rhaglen yn cytuno ar y rhaglen waith ar gyfer y Ganolfan Gofal Sylfaenol ac yn ei goruchwylio ac ar hyn o bryd mae'n canolbwyntio ar bedair thema: datblygu clystyrau; mynediad i wybodaeth a gwybodaeth am iechyd; gwella ansawdd a diogelwch; ac arloesi ym maes gofal iechyd.

1.3 Y Rhaglen Pennu Cyfeiriad

Mae'r Rhaglen Pennu Cyfeiriad wedi darparu cyllid gan Lywodraeth Cymru i fyrddau iechyd/clystyrau er mwyn archwilio ffyrdd newydd o weithio mewn perthynas â blaenoriaethau Gweinidogol ar gyfer gofal sylfaenol, sef cynaliadwyedd gwasanaeth, gwell mynediad i gleifion a symud gofal i mewn i'r gymuned. Cafodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ei gomisiynu i gynorthwyo'r rhaglen hon a hwyluso ei gwerthuso. Mae ymateb ar wahân wedi'i baratoi gan DPCMH, mewn cysylltiad ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n canolbwyntio ar gyfraniad y rhaglen i fodel o ofal sylfaenol a chymunedol sy'n dod i'r amlwg â'r potensial i ysgogi gweddnewid ar draws y GIG yng Nghymru; dylid darllen y ddogfen honno ar y cyd â'r ymateb hwn.

2. Sut y gall rhwydweithiau clwstwr meddygon teulu yng Nghymru gynorthwyo wrth leihau'r galw ar feddygon teulu ac i ba raddau gall clystyrau ddarparu llwybr mwy hygyrch i ofal (gan gynnwys cymorth iechyd meddwl mewn gofal sylfaenol).

2.1 Datblygu clwstwr a chyfranogiad proffesiynol ehangach

Roedd clystyrau gofal sylfaenol (sydd hefyd yn cael eu hadnabod fel gofal cymdogaeth neu rwydweithiau clwstwr) wedi'u bwriadu i gynnwys y proffesiynau gofal sylfaenol ehangach, ond rydym yn ymwybodol o amrywiad yn amrywio o drefniadau cynhwysol i glystyrau sy'n

canolbwyntio ar bractisau ymarfer cyffredinol. Rydym yn amlygu'r angen am gyfranogiad proffesiynol ehangach (a adlewyrchir yn y defnydd cyson o dermau cynhwysol sy'n gysylltiedig â chlystyrau) yn gyflymach.

2.2 Arloesi a rheoli'r galw

Mae gwerthuso'r Rhaglen Pennu Cyfeiriad wedi archwilio'r cyfraniad, a bydd yn archwilio'r cyfraniad, y gall systemau brysbennu clinigol ei wneud i reoli llwyth gwaith gofal sylfaenol; y gwasanaethau proffesiynol wedi'u teilwra a/neu yr adnoddau a all gymedroli'r defnydd o wasanaethau acíwt gan bobl ag anghenion gofal cymhleth; ac integreiddio gwasanaethau y tu allan i oriau ar lefelau systemau er mwyn sicrhau parhad gofal.

3. Y tîm amlddisgyblaethol sy'n dod i'r amlwg (sut mae gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal yn rhan o'r model clwstwr newydd a sut y gellir mesur eu cyfraniad).

3.1 Datblygu clwstwr a disgrifiad o rôl sy'n cael ei lywio gan anghenion

Bydd angen i ddatblygu a disgrifio rolau newydd fod yn unol ag anghenion clwstwr a nodwyd, wedi'u cynorthwyo gan argaeledd a chyllid hyfforddiant wedi'i deilwra i staff presennol sy'n newid rolau ac i staff newydd eu recriwtio i ofal sylfaenol. Bydd angen cymorth arbenigol ar glystyrau i nodi eu hanghenion staffio a'r adnoddau sydd ar gael i'w diwallu.

3.2 Ansawdd/diogelwch ac asesu effaith tîm amlddisgyblaethol

Byddai cyfraniad dulliau tîm amlddisgyblaethol o ran darparu gwasanaethau'n cael ei adlewyrchu'n gyffredinol mewn mesurau sy'n gysylltiedig â chanlyniadau (fel nifer yr anafiadau sy'n deillio o gwympiadau yn y cartref); mesurau sy'n gysylltiedig â phrosesau (fel cyfraddau atgyfeirio i ofal eilaidd); a mesurau sy'n gysylltiedig â phrofiad y claf (fel lefelau boddhad sy'n deillio o arolygon). Yng nghyd-destun newidiadau eraill sy'n gysylltiedig â thrawsnewid, bydd asesiad cywir o gyfraniad penodol y tîm amlddisgyblaethol yn heriol. Mae dulliau gwerthuso pragmatig yn bodoli (fel dadansoddi cyfraniad) a cheir sail dystiolaeth bresennol ar weithio tîm amlddisgyblaethol effeithiol yn y llenyddiaeth wyddonol. Mae angen rhoi sylw i'r cwestiwn ynghylch pa mor llwyddiannus mae cynlluniau peilot tîm amlddisgyblaethol yn cael eu cynorthwyo i drawsnewid yn wasanaethau busnes yn ôl yr arfer cynaliadwy.

3.3 Arloesi a chyfraniad y tîm amlddisgyblaethol

Mae gwerthuso'r Rhaglen Pennu Cyfeiriad wedi archwilio'r cyfraniad, a bydd yn archwilio'r cyfraniad, y gall timau amlddisgyblaethol ei wneud i reoli llwyth gwaith gofal sylfaenol.

4. Heriau i weithlu'r presennol a'r dyfodol.

4.1 Datblygu clwstwr a materion gweithlu

Mae adborth gan glystyrau, timau iechyd cyhoeddus lleol ac eraill yn tystio i'r pwysau y mae llawer o feddygon teulu yn ei wynebu i gynnal lefelau gwasanaeth. Mae adborth hefyd yn nodi y gall y rheidrwydd hwn wrthdaro ag ymgysylltu yng ngraddau llawn uchelgeisiau

clwstwr gofal sylfaenol. Mae rhai staff y Ganolfan Gofal Sylfaenol wedi cyfrannu at strategaeth y gweithlu gofal sylfaenol. Mae eu cyfranogiad yn nodi bod heriau'n cynnwys sicrwydd o lwybrau gyrfa deniadol (fel rolau nyrs ymgynghorol newydd mewn clwstwr); cadw gwybodaeth a phrofiad; rhwystrau'n ymwneud â'r broses recriwtio; darparu cymorth cymheiriaid i'r rhai mewn rolau newydd (fel mentoriaeth); hyfforddiant priodol; a datblygu diwylliannau'n seiliedig ar gynhwysiant a pharch at ei gilydd rhwng yr holl rolau clwstwr.

4.2 Datblygu clwstwr a rolau proffesiynol sy'n esblygu

Bydd angen ymgyrchoedd wedi'u cefnogi'n dda i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd er mwyn sicrhau bod cyhoedd doeth yn deall bod rolau amlddisgyblaethol ehangach i ategu (nid disodli) meddygon teulu yn rhyddhau meddygon teulu i ganolbwyntio ar hyn y gallant hwy yn unig ei gyfrannu i ofal sylfaenol; nid yw rolau newydd wedi eu bwriadu i gymryd lle meddygon teulu.

4.3 Arloesi a chynllunio i gynorthwyo trawsnewid cynaliadwy

Mae gwerthuso'r Rhaglen Pennu Cyfeiriad wedi archwilio, a bydd yn archwilio, rôl ganolog cynllunio'r gweithlu ar draws gofal sylfaenol a chymunedol wrth hwyluso trawsnewid a sicrhau cynaliadwyedd tymor canolig i hirdymor gwasanaethau gofal sylfaenol. Mae profiad yn awgrymu bod mynd i'r afael â chynaliadwyedd yn gorfod digwydd cyn gweithredu modelau gweithlu newydd a'r gwaith newydd a gynorthwyir ganddynt.

5. Y cyllid a ddyrennir yn uniongyrchol i glystyrau er mwyn galluogi practisau meddygon teulu i roi cynnig ar ffyrdd newydd o weithio; sut mae arian yn cael ei ddefnyddio i leihau'r pwysau ar bractisau meddygon teulu, gwella'r gwasanaethau a'r mynediad sydd ar gael i gleifion.

5.1 Datblygu clwstwr a gweithio systemau

Mae practisau cyffredinol yn gweithredu o fewn cyd-destun gofal sylfaenol, a gofal sylfaenol o fewn cyd-destun system gyfan (gan gynnwys gofal eilaidd a chymunedau). Mae'n dilyn y dylai ffrydiau cyllido i archwilio ffyrdd newydd o weithio adlewyrchu'r gyd-ddibyniaeth hon. Er bod clystyrau'n parhau i ddatblygu tuag at gyfranogiad gofal sylfaenol ehangach, mewn rhai achosion nid yw penderfyniadau ar wario'r arian hwn yn adlewyrchu hyn. Rydym yn annog mynediad teg i gyfleoedd cyllido yn seiliedig ar asesiad o anghenion y boblogaeth.

5.2 Ansawdd/diogelwch a gwella gwasanaeth gofal sylfaenol

Mae ein tîm 1000 o Fywydau a Mwy yn arwain datblygu rhaglen diogelwch ac ansawdd gofal sylfaenol a gynorthwyir gan y Ganolfan Gofal Sylfaenol. Bydd hyn yn ymgorffori sawl prosiect sy'n defnyddio technoleg i nodi a rheoli risg, gyda'r nod o wella canlyniadau i gleifion. Mae datblygu clystyrau yn gyfle i edrych o'r newydd ar gryfhau arweinyddiaeth yn ymwneud â gwella ansawdd ar draws rhwydweithiau gofal sylfaenol.

6. Heriau'r gweithlu a'r newid i atal sylfaenol mewn practis cyffredinol i wella canlyniadau iechyd y boblogaeth a thargedu anghydraddoldebau iechyd.

6.1 Datblygu clwstwr a rhagnodi cymdeithasol

Mae rhagnodi cymdeithasol yn cael sylw cynyddol fel ffordd i ofal sylfaenol ymgysylltu ag atal sylfaenol (hybu iechyd a gweithgareddau eraill i leihau'r posibilrwydd o fynd yn sâl), gwneud defnydd gwell o asedau cymunedol anfeddygol a dylanwadu ar benderfynyddion cymdeithasol iechyd yn lleol. I gynorthwyo gofal sylfaenol yn hyn, rydym yn cydlynu map o'r dystiolaeth, yn casglu gweithgarwch rhagnodi cymdeithasol, ac yn trefnu digwyddiadau i rannu a hyrwyddo'r dysgu hwn ledled Cymru er mwyn llywio penderfyniadau ar brosiectau presennol ac yn y dyfodol.

6.2 Gwybodaeth/deallusrwydd ac iechyd y boblogaeth

Mae'r Ganolfan Gofal Sylfaenol yn gweithio gydag eraill i wella mynediad i wybodaeth iechyd berthnasol ac amserol. Rydym yn annog clystyrau i feddwl yn ehangach am y data sy'n disgrifio anghenion y boblogaeth ac integreiddio gwybodaeth sy'n codi o broffesiynau heblaw am bractis cyffredinol. Yn ogystal ag adlewyrchu anghenion y boblogaeth dylai cynlluniau clwstwr gael eu llywio gan dystiolaeth ar ymyriadau effeithiol, ac rydym yn bwriadu cryfhau ein cymorth ar gyfer hyn. Mae timau iechyd cyhoeddus lleol yn chwarae rôl hanfodol o ran helpu clystyrau i ddehongli statws iechyd y boblogaeth, blaenoriaethu gweithredu a dewis ymyriadau gwerth gorau—ond mae teilwra hyn ar gyfer 64 o glystyrau yn herio gallu ac adnoddau.

7. Aeddfedrwydd clystyrau a chynnydd gweithio mewn clystyrau mewn gwahanol Fyrddau Iechyd Lleol, gan nodi enghreifftiau o arfer gorau.

7.1 Datblygu clwstwr a statws aeddfedrwydd

Rhagwelwn y bydd byrddau iechyd unigol yn rhoi sylwadau ar aeddfedrwydd presennol eu clystyrau ac yn enwi enghreifftiau o arfer gorau yn eu hymatebion.

7.2 Cyflunio arloesi a chlystyrau

Mae gwerthuso'r Rhaglen Pennu Cyfeiriad wedi archwilio, a bydd yn archwilio, dulliau o ran cyfluniad mewnol clystyrau sy'n ysgogi trawsnewid.

8. Arweinyddiaeth leol a chenedlaethol gan gynorthwyo datblygu'r seilwaith clwstwr; sut mae'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd i ategu'r rhai hynny yng nghynllun gofal sylfaenol Llywodraeth Cymru a gweledigaeth 2010, *Gosod y Cyfeiriad*.

8.1 Datblygu clwstwr a chymorth ar gyfer arweinyddiaeth a sgiliau

Rydym wedi cynorthwyo neu froceru sawl menter i ddatblygu arweinyddiaeth a sgiliau eraill. Y rhain yw'r Rhaglen Arweinwyr Hyderus (ar gyfer arweinwyr clwstwr); hyfforddi a dysgu gweithredol (yng ngogledd Cymru i ddechrau ac wedi'u hanelu at arweinwyr clwstwr hefyd); a chyfres o weithdai wedi'u hanelu at unrhyw un sy'n gweithio mewn clystyrau neu gyda chlystyrau (i ddechrau bydd hyn ar asesiad o anghenion iechyd, rheoli prosiect a chydgynhyrchu). Mae rhaglen ddilynol yn cael ei datblygu a bydd yn cael ei llywio gan werthusiad o'r digwyddiadau hyd yma.

8.2 Arloesi a rôl unedau cymorth gofal sylfaenol

Mae gwerthuso'r Rhaglen Pennu Cyfeiriad wedi archwilio trefniadaeth a swyddogaeth unedau cymorth gofal sylfaenol (PCSUs), a bydd yn parhau i archwilio'r rhain, yn enwedig eu rôl mewn perthynas â chynaliadwyedd tymor byr gwasanaethau gofal sylfaenol.

9. Mae mwy o fanylion am yr agweddau sy'n cael eu gwerthuso, y cymorth sy'n cael ei gyflenwi yn ganolog a'r meini prawf sydd yn eu lle i benderfynu ar lwyddiant clystyrau neu fel arall, gan gynnwys sut mae mewnbwn gan gymunedau lleol yn cael ei ymgorffori yn y datblygiad a'r profi sy'n cael ei gynnal.

9.1 Datblygu clwstwr a gwerthusiad academaidd o'r model clwstwr

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi comisiynu partner academaidd i arolygu'r swyddogaethau ac aeddfedrwydd clystyrau yng Nghymru; adolygu dulliau mesur sydd wedi'u cynllunio ar gyfer cymharu aeddfedrwydd ac ansawdd gofal sylfaenol; teilwra dull presennol ar gyfer cymariaethau yng Nghymru; a mesur ‘cryfder’ clystyrau gofal sylfaenol mewn perthynas ag aeddfedrwydd.

9.2 Gwybodaeth/ deallusrwydd a chymorth ar gyfer cydweithio

Mae gwefan Gofal Sylfaenol Un yn hyrwyddo cydweithio yng Nghymru ac yn ceisio cynorthwyo datblygu clystyrau yn genedlaethol. Mae'n ceisio bod yn ffynhonnell ganolog o wybodaeth sy'n berthnasol i glystyrau ac mae'n hyrwyddo cyd-gymorth i rannu dysgu, prosiectau a arweinir gan glystyrau a chyflawniadau.

9.3 Ansawdd/diogelwch a mesurau effeithiolrwydd gofal sylfaenol

Mae'r Ganolfan Gofal Sylfaenol yn cynorthwyo datblygu a gweithredu Mesurau Gofal Sylfaenol sy'n cael eu harwain gan y DPCMH. Mae'r mesurau hyn wedi'u bwriadu i adlewyrchu gwelliannau ansawdd yng nghyfraniad gofal sylfaenol i well canlyniadau iechyd (neu brocsis ohonynt).

9.4 Arloesedd a chymorth ar gyfer asesu canlyniadau

Mae ffyrdd newydd o weithio yn ei gwneud yn ofynnol cael rhyw fath o asesiad canlyniadau er mwyn nodi newid a chanddo rinweddau a'r potensial ar gyfer ei fabwysiadu mewn mannau eraill drwy rannu dysgu. Rydym yn archwilio sut y gallwn gryfhau ein cymorth i glystyrau drwy gydlynu mynediad i arbenigedd ymchwil a gwerthuso y tu mewn i'r sefydliad a'r tu allan iddo.

PC 21

Ymchwiliad i ofal sylfaenol

Inquiry into primary care

Ymateb gan: Cyfarwyddwyr Iechyd Sylfaenol, Iechyd Cymunedol a Iechyd Meddwl

Response from: Directors of Primary, Community & Mental Health

Mae Cyfarwyddwyr Iechyd Sylfaenol, Iechyd Cymunedol ac Iechyd Meddwl (DPCMH) yn dod at ei gilydd ar sail Cymru Gyfan bob mis i weithio gyda'i gilydd ar faterion sy'n effeithio ar bob Bwrdd Iechyd ym maes gwasanaethau iechyd sylfaenol, iechyd cymunedol ac iechyd meddwl. Mae'r gwaith ar y cyd hwn yn ystyried materion tactegol a busnes fel arfer yn ogystal â chyflawni'r uchelgeisiau a nodwyd yng Nghynllun Gofal Sylfaenol Cymru. Mae adroddiad ar y gweithgarwch hwnnw ar gyfer 2015/16 yn dangos ehangder a dyfnder y gwaith a wnaed yn ogystal â'r rhaglen waith, fel y cytunwyd â Llywodraeth Cymru, ar gyfer y flwyddyn bresennol. Bydd adroddiad tebyg ar y gweill ar gyfer y gwaith a wnaed yn ystod 2016/17 a'r cynllun gwaith arfaethedig am y flwyddyn i ddod. Yn ogystal, rydym wedi amlinellu wrth Brif Weithredwyr Byrddau Iechyd y gwaith rydym yn bwriadu mynd ar ei drywydd yn 2017/18 wedi'i nodi yn erbyn nifer o ysgogwyr allweddol ar newid strategol ar gyfer GIG Cymru. Yn hynny o beth, mae'r DPCMH yn teimlo eu bod mewn sefyllfa dda i ddarparu ymateb manwl i'r cwestiynau a bennwyd gan yr Ymchwiliad, yn ogystal â dangos y gwaith sylweddol sydd wedi'i wneud, a bydd yn parhau i gael ei wneud, ar wasanaethau Gofal Sylfaenol ledled Cymru a darparu'r arweinyddiaeth honno i raglenni cenedlaethol ac ar lefel Bwrdd Iechyd

Mae'n well ymateb i sawl un o'r cwestiynau yn genedlaethol drwy'r DPCMH, yn hytrach nag ar lefel Bwrdd Iechyd Lleol. Drwy ymateb i'r Ymchwiliad yn y modd hwn, byddem yn gobeithio darparu atebion llawn i'r gwaith sydd wedi'i wneud yn y meysydd a amlinellwyd. Yn ddiau, bydd Byrddau Iechyd Unigol yn dymuno ymateb i elfennau penodol ac yn enwedig elfennau o gwestiwn 3 (gweithlu), cwestiwn 4 (y defnydd o gronfeydd clwstwr) a chwestiwn 6 (aeddfedrwydd clystyrau lleol). Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyflwyno ymateb cysylltiedig ond unigol.

Mae'r ymateb penodol hwn yng nghyd-destun y Rhaglen Pennu Cyfeiriad, wedi'i chyllido gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo arloesedd ar draws gofal sylfaenol a'i gyflawni drwy fyrddau iechyd a chlystyrau gofal sylfaenol yng Nghymru. Roedd y cyllid hwn (£4m) yn rhan o fuddsoddiad rheolaidd 2015/16 a wnaed gan Lywodraeth Cymru mewn gwasanaethau Gofal Sylfaenol. Mae datblygu'r rhaglen hon wedi bod yn rhan allweddol o waith y DPCMH a'r Ganolfan Datblygu ac Arloesi Gofal Sylfaenol a Chymunedol (y Ganolfan Gofal Sylfaenol) a sefydlwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2016, gydag atebolrwydd i'r DPCMH.

Drwy'r Ganolfan, cafodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ei gomisiynu i gynorthwyo'r Rhaglen Pennu Cyfeiriad a hwyluso gwerthuso'r 24 o brosiectau sy'n canolbwyntio ar y blaenoriaethau Gweinidogol, sef cynaliadwyedd y gwasanaeth, gwell mynediad i gleifion a symud gofal i mewn i'r gymuned. Mae canlyniadau prosiectau unigol yn llywio model sy'n dod i'r amlwg ar gyfer gofal sylfaenol gyda'r potensial i ysgogi gweddnewid ar draws y GIG yng Nghymru.

1. Sut y gall rhwydweithiau clwstwr meddygon teulu yng Nghymru gynorthwyo wrth leihau'r galw ar feddygon teulu ac i ba raddau gall clystyrau ddarparu llwybr mwy hygyrch i ofal (gan gynnwys cymorth iechyd meddwl mewn gofal sylfaenol)

Mae amrywiaeth o fodelau clwstwr yn dod i'r amlwg ar draws Cymru sy'n addas i boblogaethau daearyddol, proffesiynol a chleifion gwahanol. Ymddengys ei bod yn

effeithiol galluogi gwahanol fodelau i ddatblygu, wrth sicrhau canlyniadau a fframweithiau llywodraethu safonol. Ymhlith manteision modelau clwstwr mwy ffurfiol, e.e. ffederasiynau, mae ymrwymiad cryfach gan ymarferwyr i weddnewid a ffyrdd newydd o weithio.

1.1 Tîm Clwstwr Amlddisgyblaethol (y tîm amlddisgyblaethol)
Ceir cyfleoedd sylweddol i reoli'r galw am ofal sylfaenol drwy ddull tîm amlddisgyblaethol, gan gyfateb arbenigedd gweithlu clwstwr ag anghenion a gofynion y boblogaeth leol. Mae timau clwstwr mewn sefyllfa dda i ddarparu gofal holistaidd am eu bod yn deall yr hanes clinigol, sefyllfaoedd cymdeithasol, cefndir personol a theuluoedd eu cleifion. Amrywiaeth eang o setiau sgiliau proffesiynol, gyda phob aelod o'r tîm yn treulio'r rhan fwyaf o'i amser ar weithgareddau sy'n ychwanegu'r gwerth mwyaf, yn sicrhau bod cleifion yn cael gofal priodol heb oedi diangen. Mae prosiectau Pennu Cyfeiriad yn nodi bod timau amlddisgyblaethol clwstwr yn ymdopi'n well â llwyth gwaith y practis ac yn nodi morâl a chymhelliant uwch.

1.2 Brysbennu Clinigol
Mae system brysbennu clinigol yn cyfeirio cleifion i'r gweithiwr proffesiynol mwyaf priodol yn y tîm clwstwr ger y pwynt cyswllt, gan leihau llwyth gwaith meddygon teulu o ddydd i ddydd a gwella mynediad i'r gofal cywir. Mae prosesau o ansawdd uchel i frysbennu cleifion yn hyrwyddo diogelwch cleifion drwy hwyluso asesu cynnar; mae llai o ‘sŵn’ yn y system yn cynorthwyo proses gyflymach o nodi pobl sâl a chyfleoedd ar gyfer ymyrryd yn gynnar. Byddai safonau a chanllawiau cenedlaethol yn hyrwyddo systemau diogel ac effeithiol ar gyfer brysbennu clinigol.

1.3 Integreiddio â Gofal Arbenigol
Gall staff arbenigol, fel ymgynghorwyr Gofal yr Henoed a nyrsys arbenigol, gan weithio ochr yn ochr â thimau clwstwr gael effaith sylweddol drwy gynorthwyo gofal a leolir yn y gymuned a darparu cyfleoedd addysgol i weithwyr proffesiynol gofal sylfaenol.

1.4 Gwasanaethau Gofal Sylfaenol y Tu Allan i Oriau
Mae gwasanaethau y tu allan i oriau wedi'u hailgynllunio'n ddiweddar yn cynnig asesiad aml-broffesiynol a gofal di-dor i gleifion ar draws y rhyngwyneb yn ystod oriau / y tu allan i oriau. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer cleifion cymhleth, yr henoed a'r rhai sy'n derbyn gofal lliniarol, i sicrhau dealltwriaeth o anghenion unigol a pharhad gofal.

1.5 Seilwaith i Glystyrau
Mae fframwaith llywodraethu cryf, gydag atebolrwydd ac indemniad cryf, yn sylfaen hanfodol ar gyfer modelau clwstwr newydd. Mae timau pennu cyfeiriad yn nodi pwysigrwydd systemau technoleg rheoli gwybodaeth cadarn, cyfeillgar i ddefnyddwyr er mwyn cynorthwyo ailgynllunio, cyfathrebu, gweithio ar y cyd, meincnodi a chofnodi data awtomataidd ar sail clwstwr. Rhaid i brosesau adnoddau dynol a systemau ariannol gyd-fynd â'i gilydd er mwyn newid â chyflymdra. Yn gynyddol, mae angen i gynllunio ystadau gynorthwyo timau amlddisgyblaethol sy'n gweithio ar sail clwstwr.

1.6 Mynediad i Wasanaethau Iechyd Meddwl
Mae'n amlwg bod mynediad cyflym i ddarpariaeth iechyd meddwl briodol sy'n cael ei hysgogi yn lleol yn dod yn thema gref mewn cynlluniau clwstwr sy'n dod i'r amlwg ledled Cymru. Mae'r ail flwyddyn o gynlluniau clwstwr ar draws Cymru yn dangos tystiolaeth o glystyrau sy'n comisiynu MIND a darparwyr eraill ar gyfer clinigau iechyd meddwl yn y practis. Mae model Camau'r Cymoedd yng Nghwm Taf a modelau Therapi Gwybyddol

Ymddygiadol haen 0 eraill hefyd yn eu camau cynnar ac yn dangos tystiolaeth gref o weithio'n dda gyda gofal sylfaenol i osgoi achosion o uwchgyfeirio.

2. Mae'r tîm amlddisgyblaethol sy'n dod i'r amlwg (sut mae gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal yn rhan o'r model clwstwr newydd a sut y gellir mesur eu cyfraniad)

Ymchwiliodd y prosiectau Pennu Cyfeiriad i ymestyn rolau ar gyfer parafeddygon, ymarferwyr nyrsio, fferyllwyr, ffisiotherapyddion, technegwyr, therapyddion galwedigaethol, cwnselwyr iechyd meddwl a gweithwyr proffesiynol Awdurdod Lleol mewn lleoliad clwstwr. Mae gwerthuso'r rolau a gwasanaethau newydd hyn yn cynnwys eu heffaith ar foddhad cleifion, lleihad mewn ymgyngoriadau wyneb yn wyneb â meddygon teulu ac osgoi derbyniadau i'r ysbyty. Ceir tystiolaeth o ymchwil arall o fanteision rolau clwstwr ar gyfer cymdeithion meddygol, gweithwyr cymorth gofal iechyd, deietegydd, optometrydd, therapyddion lleferydd ac iaith, ymgynghorwyr newid ymddygiad a hylenyddion deintyddol. Mae'r canfyddiadau o'r ymchwil wedi'u hamlinellu isod. Mae rhagor o wybodaeth ar gael am fodel sy'n dod i'r amlwg a allai fod ar waith ledled Cymru i weddnewid o recriwtio hyd at ddibynnu llai ar wasanaethau gofal eilaidd.

2.1 Gweithio mewn tîm

Mae perchenogaeth o rolau clwstwr newydd gan y tîm gofal sylfaenol presennol yn hanfodol i lwyddiant. Mae timau sy'n defnyddio asesiad o anghenion iechyd lleol a'r galw o ran cleifion i recriwtio gweithwyr proffesiynol a chanddynt y sgiliau priodol yn gwireddu'r manteision mwyaf.

2.2 Rolau estynedig

- Gall y fferyllydd clwstwr weithio mewn maes clinigol arbenigol neu rôl fwy generig, gan fynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion meddyginiaeth. Mae fferyllwyr profiadol yn nodi cleifion risg uchel o safbwynt meddyginiaeth ac yn cynorthwyo cleifion i reoli eu hiechyd eu hunain, gan gynnig dewisiadau amgen i feddyginiaeth drwy gyngor a rhagnodi cymdeithasol.
- Mae mwy o ddealltwriaeth gan y tîm clwstwr o rôl y therapydd galwedigaethol mewnol yn cynorthwyo wrth nodi pobl a fyddai'n cael budd o'r gwasanaethau hyn, gyda'r potensial i gysylltu'n uniongyrchol â Gwasanaethau Cymdeithasol a gwasanaethau'r Trydydd Sector.
- Mae ffisiotherapyddion â rolau estynedig yn arwain gwasanaethau cyhyrysgerbydol (MSK) mewn timau clwstwr, gan arwain at ostyngiadau mewn ymgyngoriadau â meddygon teulu ar gyfer cyflyrau cyhyrysgerbydol.
- Mae Uwch-ymarferwyr Nyrsio yn cynorthwyo â chleifion mwy cymhleth a gallant ymgymryd â brysbennu clinigol mewn clystyrau. Mae practisau'n nodi pwysigrwydd cysoni rolau nyrsio newydd â gwasanaethau presennol i sicrhau cynllunio a chydlynu da.
- Mae cwnselwyr iechyd meddwl yn rheoli amrywiaeth o broblemau iechyd meddwl mewn cleifion sy'n dychwelyd yn aml ac maent yn cynnig technegau ymyriad byr pan fo'n briodol.
- Mae'r meddyg teulu â Diddordeb Arbennig (GPwSI) yn cynnig arbenigedd clinigol penodol ac mae mewn sefyllfa dda i fod yn 'hyrwyddwr clwstwr' mewn maes arbenigol, gan gynnig cymorth a chyngor clinigol i gydweithwyr a meithrin cysylltiadau agosach â thimau clinigol acíwt. Mae swyddi GPwSI yn llwyddiannus wrth ddenu meddygon teulu i ardal.

- Mae Uwch-barafeddygon Practis wedi'u hyfforddi mewn amrywiaeth o sgiliau asesu clinigol a gwneud penderfyniadau, trin cleifion sy'n agos at eu cartrefi a lleihau ymweliadau diangen â'r ysbyty.
- Mae rolau Gweithiwr Cymdeithasol mewn practis wedi profi'n llwyddiannus, nid dim ond drwy gynnwys y problemau a'r materion cymdeithasol niferus y mae'n rhaid i feddygon teulu ymdrin â hwy bob dydd ond hefyd wrth “olrhain” cleifion practis sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty a hwyluso rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn brydlon. Yn ogystal, bu'r rôl yn effeithiol wrth weithio mewn partneriaeth â fferyllydd y practis ac ymweld â chleifion sy'n gaeth i'w cartref.

2.3 Trefniadau cydweithio

- Gall integreiddio â staff awdurdod lleol a sector gwirfoddol ar sail clwstwr leihau'r nifer sy'n cael eu derbyn i'r adran damweiniau ac achosion brys a'r rhai sy'n gorfod aros yn yr ysbyty. Mae cyfarfodydd rheolaidd y tîm amlddisgyblaethol yn cynorthwyo unigolion i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi, gan lywio llawer i ffwrdd o ofal preswyl neu gartref nyrsio.
- Mae rotas ar y cyd, cyfleoedd dysgu a rennir a chydleoli staff clwstwr ag asiantaethau eraill, e.e. Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ac awdurdodau lleol yn gwella integreiddio.

3. Heriau i'r gweithlu yn awr ac yn y dyfodol

Mae nifer o bethau'n achosi breuder llawer o bractisau ledled Cymru gan gynnwys cynnydd ym maint a chymhlethdod llwyth gwaith, ac anawsterau o ran recriwtio. Mae'r gweithlu meddyg teulu sy'n crebachu'n gyflym yn un o agweddau mwyaf heriol gofal sylfaenol, gyda phwysau uwch ar y gweithlu, arferion ansefydlog a risgiau i ansawdd gofal cleifion. Mae angen dybryd i gynyddu gallu ac adnoddau yn y system, gyda rolau gweithlu newydd a modelau amgen nad ydynt dim ond yn symud adnoddau presennol o amgylch y system gofal iechyd.

3.1 Cynaliadwyedd Gofal Sylfaenol

Mae ystadegau manwl ar gynaliadwyedd practis yn cynorthwyo wrth asesu cadernid a risg. Mae'r Rhaglen Pennu Cyfeiriad yn nodi gwerth mesurau safonedig ar gyfer cynaliadwyedd a'r defnydd o ddangosfyrddau i lywio barn genedlaethol ar gadernid gofal sylfaenol a chynllunio'r gweithlu.

3.2 Timau Cymorth Byrddau Iechyd

Mae methodolegau i gynyddu cadernid practisau a hwyluso recriwtio yn cael eu gwerthuso. Mae dull cydweithredol ar draws byrddau iechyd cyfagos yn helpu i sicrhau'r adnoddau mwyaf posibl a denu gweithwyr proffesiynol newydd. Mae cynlluniau gyrfa hyblyg yn cynnig swyddi diddorol i feddygon teulu wrth ddarparu cyflenwad locwm i bractisau ar draws clwstwr neu ardal bwrdd iechyd.

3.3 Dull Amlddisgyblaethol

Mae'r tîm clwstwr estynedig yn cynnig hyblygrwydd ac ymatebolrwydd i gyflyrau a galw sy'n newid, gan hyrwyddo cynaliadwyedd, cadernid a darbodion maint gwell.

3.4 Tasglu Gweinidogol ar y Gweithlu

Mae tasglu'r Gweinidog wedi cyflwyno ffocws i'w groesawu o ran gweithgarwch y gweithlu gyda ffocws cychwynnol cryf ar recriwtio a chadw meddygon teulu ar ffurf ymgyrch recriwtio genedlaethol wedi'i chefnogi gan weithgarwch Byrddau Iechyd lleol (mae'r ffocws

hwn bellach yn caei ei estyn ar draws y proffesiynau gofal sylfaenol). Mae hefyd yn ceisio cyflymu datblygu rhagamcanion y gweithlu gofal sylfaenol. Bydd datblygu cynllunio gweithlu mwy fforensig ym maes gofal sylfaenol yn cynorthwyo gwell cynrychiolaeth Cynllunio Tymor Canolig Integredig o ran yr her recriwtio a'r gweithgarwch angenrheidiol i fynd i'r afael â hyn.

4. Y cyllid a ddyrennir yn uniongyrchol i glystyrau er mwyn galluogi practisau meddygon teulu i roi cynnig ar ffyrdd newydd o weithio; sut mae arian yn cael ei ddefnyddio i leihau'r pwysau ar bractisau meddygon teulu, gwella gwasanaethau a'r mynediad sydd ar gael i gleifion.

Er bod yr ymateb hwn yn cyfeirio at weithgarwch Pennu Cyfeiriad yn bennaf, byddai'r DPCMH yn arsylwi, mewn telerau eang, fod cyllido clystyrau yn uniongyrchol wedi bod yn llwyddiant. Yn gyffredinol, roedd blwyddyn gyntaf y cyllid yn canolbwyntio ar drefniadau sefydlu ar gyfer gweithgarwch amrywiol a gwario untro ar offer; mae'r ail flwyddyn wedi gweld datblygu gweithgarwch sy'n gysylltiedig â gwasanaeth a chanddynt Gytundebau Lefel Gwasanaeth ar gyfer cymorth gweithiwr cymdeithasol neu ddarpariaeth clinig iechyd meddwl.
Mae'r gweithgarwch a gomisiynwyd yn lleol wedi amrywio ar draws sawl maes:

- Ffisiotherapi mynediad uniongyrchol
- Gofal a Thrwsio
- Cynllun mân anhwylderau
- Y Gymraeg
- Apwyntiadau fferylliaeth
- Gwasanaeth traed diabetig
- Cydlynwyr ffordd o fyw
- Tîm amlddisgyblaethol/Cynllunio clwstwr
- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu – Web GP / Vision 360
- Risg gardiofasgwlaidd
- Rheoli clwyfau
- Penodi gweithwyr cymdeithasol

Yn y dyfodol dylid gweld rhywfaint o gysoni cadarnhaol rhwng y Bwrdd Iechyd, Prosiectau Pennu Cyfeiriad a blaenoriaethau gwasanaeth cynlluniau Clwstwr.

5. Heriau'r gweithlu a'r newid i atal sylfaenol mewn ymarfer meddygol i wella canlyniadau iechyd y boblogaeth a thargedu anghydraddoldebau iechyd

Mae dull y tîm amlddisgyblaethol o ran gweithio clwstwr, gyda gweithlu'n seiliedig ar anghenion iechyd y boblogaeth, yn cynnig cyfleoedd i ganolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn fuan. Wrth gynllunio ar gyfer gwasanaethau ar gyfer y dyfodol, bydd yn hanfodol cynnwys gwasanaethau sy'n cynorthwyo hunanofal, rhagnodi cymdeithasol a hybu iechyd a llesiant y tu allan i'r model meddygol traddodiadol.

Dylai'r ymchwil a gynhaliwyd ar y Model Haeniad Risg Rhagfynegi (PRISM) gael ei hystyried ymhellach o ran ei photensial i gynorthwyo modelau gofal rhagfynegol; a dylai'r gwaith sydd eisoes wedi'i wneud drwy wiriadau iechyd y Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal (rhwng Byrddau Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Phrifysgol Cwm Taf), sydd bellach yn cael ei gyflwyno'n genedlaethol, gael ei archwilio i ganfod ei effaith ar ganlyniadau yn dilyn ymyriad cynharach. Yn y dyfodol, dylid ystyried dadansoddi a segmentu'r rhestr i reoli risg yn y boblogaeth yn well.

6. Aeddfedrwydd clystyrau a chynnydd gweithio mewn clystyrau mewn gwahanol Fyrddau Iechyd Lleol, gan nodi enghreifftiau o arfer gorau

Mae'r clwstwr aeddfed yn darparu gofal holistaidd i'r gymuned gan symud o gasgliad o wasanaethau meddygon teulu i sefydliadau sy'n gweithredu'n llawn gan ddefnyddio'r ystod lawn o asiantaethau i gynorthwyo gofal cydgysylltiedig ar gyfer y boblogaeth gyfan. Gwneir atgyfeiriadau dim ond pan fydd hynny'n angenrheidiol a bydd pobl yn dychwelyd i ofal y tîm gofal sylfaenol cyn gynted â phosibl.

Mae prosiectau Pennu Cyfeiriad yn dangos:

- Gellir cyflawni gofal integredig dim ond drwy fuddsoddi'n sylweddol mewn systemau Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg i sicrhau cyfathrebu diogel rhwng gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau.
- Mae cynnwys hyblygrwydd a dewis cleifion mewn modelau darparu gwasanaeth newydd yn helpu i sicrhau ymddiriedaeth a chydweithrediad cleifion a gweithwyr proffesiynol wrth ailgynllunio system gyfan.
- Mae adolygiad o lwybrau clinigol ar gyfer cyflyrau sensitif triniaeth ddydd a chyflyrau cyffredin eraill yn helpu i hysbysu cynllunwyr o ran lle y dylai gweithwyr proffesiynol gael eu lleoli i gyflawni gofal effeithiol sy'n canolbwyntio ar y claf y tu allan i leoliad yr ysbyty.

7. Arweinyddiaeth leol a chenedlaethol gan gynorthwyo datblygu'r seilwaith clwstwr; sut mae'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd i ategu'r rhai yng nghynllun gofal sylfaenol Llywodraeth Cymru a gweledigaeth 2010, *Gosod y Cyfeiriad*

Yn gyffredinol mae'r DPCMH wedi blaenoriaethu datblygu clwstwr yn gryf iawn. Mae rhaglen fwriadol o weithgarwch cymorth clwstwr sy'n cael ei chyflwyno drwy'r Ganolfan Gofal Sylfaenol wedi cymryd lle'r gwaith cynnar ar fodelau ar gyfer deall aeddfedrwydd clwstwr ac adnoddau ategol cyfatebol. Erbyn hyn ceir sawl rhaglen sy'n datblygu arweinyddiaeth i gynorthwyo gweithio mewn clwstwr ac mae arweinwyr clwstwr ledled Cymru yn manteisio ar y rhaglenni hyn yn rheolaidd.

Yn lleol, mae ymdrechion sylweddol wedi'u gwneud gan Fyrddau Iechyd i gynorthwyo Clystyrau i ddatblygu ac mae cynlluniau clwstwr yn cael eu blaenoriaethu yn y rownd hon o Gynlluniau Tymor Canolig Integredig.

Mae'r rhaglen Pennu Cyfeiriad yn tynnu sylw at bwysigrwydd arweinyddiaeth glinigol a rheolaethol mewn arloesedd llwyddiannus ac ailgynllunio gwasanaeth mewn clystyrau.

7.1 Arweinyddiaeth Glinigol

Mae arweinwyr clinigol yn hanfodol i addysgu, cynghori, cynorthwyo ac arwain arloesi. Mae Hyrwyddwyr Clwstwr yn hyrwyddo gwasanaethau newydd ac yn rhaeadru sgiliau allweddol ymhlith y tîm Gofal Sylfaenol. Mae sesiynau addysgol i ddangos gwell canlyniadau clinigol yn helpu i ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol a rhoi sicrwydd iddynt.

7.2 Rhwydweithiau Arloesi

Mae gweithdai a hwylusir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi rhoi cyfle i arweinwyr prosiect rannu syniadau, profiadau a chanlyniadau a galluogi cydweithwyr i ragweld datblygu ar raddfa fawr ar gyfer dyfodol gofal sylfaenol yng Nghymru.

7.3 Rheolwyr Datblygu Busnes

Mae prosiectau Pennu Cyfeiriad wedi profi gwerth rheolwyr practis profiadol wrth ysgogi arloesi clwstwr. Mae potensial ar gyfer darbodion maint mewn swyddogaethau cefn swyddfa clystyrau

drwy ddatblygu timau rheolwyr practis, o dan arweiniad Rheolwyr Datblygu Busnes ar sail clwstwr.

8. Mae mwy o fanylion am yr agweddau sy'n cael eu gwerthuso, y cymorth sy'n cael ei gyflenwi yn ganolog a'r meini prawf sydd yn eu lle i benderfynu ar lwyddiant clystyrau neu fel arall, gan gynnwys sut mae mewnbwn gan gymunedau lleol yn cael ei ymgorffori yn y datblygiad a'r gwaith profi a wneir

Mae gwerthusiadau prosiectau pennu cyfeiriad yn seiliedig ar lwyddiant wrth ddod o hyd i atebion i'r tair blaenoriaeth weinidogol gofal sylfaenol. Mae prosiectau unigol wedi cael eu cyflawni a'u gwerthuso gan bob bwrdd iechyd, gan ddarparu cydlynu a chymorth drwy ddull partneriaeth rhwng y Ganolfan Gofal Sylfaenol, 1000 o Fywydau (Iechyd Cyhoeddus Cymru) a DPCMH y Bwrdd Iechyd. Aseswyd a lledaenwyd y dysgu a rennir o'r rhaglen a chynhaliwyd digwyddiadau dysgu cenedlaethol. Mae'r Rhaglen Pennu Cyfeiriad yn tendro am bartner i werthuso gweithgarwch a wnaed hyd yma a rhagor o weithgarwch i ddilyn.

Dogfennaeth y cyfeirir ati yn yr ymateb hwn ac sydd ar gael ar gais:

- Adroddiad Blynyddol DPCMH 2015/16
- Cynllun gwaith DPCMH
- Rôl Canolfan Datblygu ac Arloesi Gofal Sylfaenol a Chymunedol ICC
- Y Rhaglen Pennu Cyfeiriad – model sy'n dod i'r amlwg ar gyfer gofal sylfaenol a chymunedol yn GIG Cymru

Paratowyd dros ac ar ran DPCMH Cymru Gyfan.

PC 24

Ymchwiliad i ofal sylfaenol

Inquiry into primary care

Ymateb gan: Conffederasiwn GIG Cymru

Response from: Welsh NHS Confederation

The Welsh NHS Confederation response to the Health, Social Care and Sport Committee inquiry into primary care.

Contact: Nesta Lloyd – Jones, Policy and Public Affairs Manager, the Welsh NHS Confederation.
[redacted] Tel: [redacted]

Date: 29 January 2017

Introduction

1. We welcome the opportunity to contribute to the Health, Social Care and Sport Committee inquiry into primary care. Primary care is vitally important to our national health service and we must recognise the range of professionals who are part of the primary care service. Primary and community care encompasses a range of services including, but not exclusively, GPs, general practice nurses, pharmacy, dentistry, specialty clinics, optometry, community and district nurses, midwives, health visitors, mental health teams, health promotion teams, physiotherapists, occupational therapists, dietitians, speech and language therapists, podiatrists, phlebotomists, paramedics, public health teams, rehabilitation teams, social workers, other local authority staff and all those people working and volunteering in voluntary organisations which help meet the health and well-being needs of people in our communities. This inquiry is timely to highlight the significant work that is being done and the developments in primary care sector across Wales.

2. The Welsh NHS Confederation represents the seven Health Boards and three NHS Trusts in Wales. The Welsh NHS Confederation supports our members to improve health and well-being by working with them to deliver high standards of care for patients and best value for taxpayers' money. We act as a driving force for positive change through strong representation and our policy, influencing and engagement work. The Welsh NHS Confederation and our members would be more than happy to provide further information to Members of the Committee.

Overview

3. As changes in demographics and our lifestyles have resulted in a dramatic rise in demand on the health and care services, it has become increasingly clear that a transformation in the way treatment is delivered is required if the NHS is to meet the needs of a future population.

